TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Gradd Atodol BSc (Anrh) - Nyrsio Milfeddygol



**Yn gryno**

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol a enillir trwy'r cwrs hwn yn ddymunol yn y Proffesiwn Milfeddygol ac amrywiaeth eang o ddiwydiannau amaethyddol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych chi'n dymuno uwchraddio eich Gradd Sylfaen i Radd Anrhydedd lawn mewn Gwyddor Nyrsio Milfeddygol

... Ydych chi'n dymuno anelu at swydd raddedig yn eich dewis faes

... Ydych chi'n awyddus i gyfuno eich astudio gyda phrofiad ymarferol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Bydd cwblhau'r radd atodol BSc (Anrh) mewn Gwyddor Nyrsio Milfeddygol blwyddyn o hyd hon yn eich galluogi i gystadlu am swyddi graddedig yn y Proffesiwn Nyrsio Milfeddygol a

diwydiannau iechyd a lles Anifeiliaid eraill. Bydd ein BSc (Anrh) Nyrsio Milfeddygol yn datblygu eich gallu i ymgysylltu ag ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, gan eich galluogi i wneud cyfraniadau blaengar at y Proffesiwn Nyrsio Milfeddygol.

Bydd y cwrs 120 credyd yn cynnwys:

Modiwl ymchwil o dan arweiniad prifysgol
Swoleg fertebraidd
Moeseg a lles anifeiliaid
Gwelliannau mewn iechyd ac ymddygiad anifeiliaid
Maeth clinigol datblygedig.

Mae'r darlithwyr yn cynnwys Bethan Lewis, Kate Beavan RVN, Rhiannon Stundon RVN, Michelle Cooper, Jess Ingleson, Clare Clift RVN.

Bydd asesu yn amrywiol a pharhaol trwy gydol blwyddyn y cwrs, i gynnwys trafodaethau a beirniadaethau grwp, prosiectau ymchwil, gwaith portffolio, cyflwyniadau, asesu ac adroddiadau ymarferol.

Byddwch yn ennill BSc (Anrh) Nyrsio Milfeddygol.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae'r Radd Atodol BSc (Anrh) Nyrsio Milfeddygol yn gwrs mynediad Blwyddyn 3 yn unig. Mae angen llwyddo yn y Radd Sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol yng Ngholeg Gwent, neu mae angen un o'r RCVS achrededig FdSc Nyrsio Milfeddygol.

Mae'r amserlen arferol ar gyfer y cwrs hwn yn rhedeg dros un/dau ddiwrnod yr wythnos a bydd disgwyl i fyfyrwyr fynychu pob sesiwn. Bydd disgwyl i fyfyrwyr gwblhau o leiaf 20 awr yr wythnos o astudio ac ymchwil annibynnol. Bydd rhai sesiynau dysgu yn cael eu cynnal ar Gampws Glyntâf Prifysgol De Cymru, Pontypridd, er y bydd y mwyafrif yn cael eu cyflwyno ar gampws Brynbuga Coleg Gwent.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd cwblhau'r radd atodol BSc (Anrh) Gwyddor Nyrsio Milfeddygol blwyddyn o hyd yn eich galluogi i gystadlu am swyddi graddedig yn y proffesiwn Nyrsio Milfeddygol a Diwydiannau iechyd a lles Anifeiliaid eraill. Pe byddech yn dymuno parhau â'ch Addysg uwch gallech symud ymlaen at Radd Meistr berthynol.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Byddwch yn cael eich dysgu trwy ddarlithiau, tiwtorialau a gwaith ymarferol. Gall rhywfaint o'r cyflwyno gael ei ddarparu gan siaradwyr gwadd. Mae astudio hunangyfeiriedig yn chwarae rhan ym mhob modiwl ac mae'n cael ei gefnogi gan amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol. Mae cyfran yr astudio hunangyfeiriedig yn dibynnu ar y modiwl a gall amrywio o 50% i 80%. Mae'r cwrs hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan Goleg Gwent, ar ein Campws ym Mrynbuga a Phrifysgol De Cymru, Trefforest a bydd cyflwyno gwersi yn cael ei rannu rhwng Brynbuga a Threfforest, gofynnwch am fanylion pan ymwelwch ag un o'n digwyddiadau agored.